CYFRES B1

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 7: 36-50

ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 5: 1

Astudiaeth 1 Damhegion – Y Ddau Ddyledwr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 86: 1-7 Actau 13: 38 & 39 Effesiaid 4: 25-32

Roedd un o'r Phariseaid wedi gwahodd Iesu a phobl eraill i gael pryd o fwyd yn ei gartref. Roedd y Phariseaid yn ldewon crefyddol iawn ac roedd y bobl yn eu parchu fel eu harweinwyr.

CROESAIR



Cliwiau ar Draws

5 O beth oedd y blwch neu'r ffiol wedi'i wneud?
7 Beth oedd wedi achub y wraig?
8 Beth na roddodd y Pharisead i Iesu i'w gyfarch?

Cliwiau i Lawr

1 Beth oedd yn y blwch neu'r ffiol?
2 A beth wnaeth y wraig wlychu traed Iesu?
3 A beth wnaeth y wraig sychu traed Iesu?
4 Meddyliodd y Pharisead, pe bai Iesu'n un o'r rhain, byddai'n gwybod mai pechadures oedd y wraig.
6 Dywedodd Iesu wrth y wraig bod ei phechodau wedi'u _ _ _ _ _.



Roedd Simon, y Pharisead, wedi penderfynu nad oedd Iesu'n broffwyd. Mae'n rhaid ei fod wedi cael sioc pan sylweddolodd fod Iesu'n gwybod yn union beth oedd ar ei feddwl. Roedd Iesu'n gwybod beth oedd Simon yn ei feddwl ac **mae Iesu'n gwybod beth rydyn ni'n ei feddwl hefyd!** Rhan fach o'n darlleniad o'r Beibl yw'r ddameg a ddywedodd Iesu wrth Simon (adnodau 41 – 43).

Mae Iesu'n Dduw

Mae dameg yn stori am bethau cyffredin ond mae iddi ystyr ddyfnach am Dduw.

Dewch i ni feddwl am ystyr ddyfnach y ddameg. Darllenwch adnodau 41 - 43 eto. Mae'r benthyciwr arian yn cynrychioli Duw. Gallai'r ddau ddyn fod yn unrhyw un. Fodd bynnag, mae un wedi byw'n fwy pechadurus o lawer na'r llall ac felly mae ei 'ddyled' i Dduw yn fwy. Ond nid yw'r naill na'r llall yn gallu talu ei ddyled i Dduw. Mae Duw yn maddau holl bechodau'r ddau ddyn, ond mae'r dyn y gwnaeth Duw faddau mwy o bechodau iddo yn teimlo'n fwy diolchgar i Dduw a mwy o gariad ato.

C **Beth oedd y peth cyntaf a ddywedodd Iesu wrth y wraig yn y darlleniad hwn?**

3

C **Beth ddywedodd y bobl eraill oedd wrth y bwrdd wrthynt eu hunain?**

3

Roedden nhw'n gwybod mai dim ond Duw sy'n gallu maddau pechodau pobl ond doedden nhw ddim yn deall bod Iesu'n Dduw.

C **Beth ddywedodd Iesu wrth y wraig ar ddiwedd y darlleniad o'r Beibl?**

2

C **Ysgrifennwch yr adnod allweddol.**

2

C **Beth yw'r ddau air sy'n digwydd yn y DDAU ateb diwethaf?**

2

Ydi'ch pechodau chi wedi'u maddau?

Ydych chi'n caru Iesu achos yr hyn y mae wedi'i wneud drosoch?

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 10: 25-37

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 10: 27

Astudiaeth 2 Damhegion – Pwy yw fy nghymydog?

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Philipiaid 2: 1-11 Mathew 5: 43-48 Luc 6: 31-38

Mae llawer o bobl yn gwybod y ddameg hon. Mae'n cael ei galw'n 'Ddameg y Samariad Trugarog'. Dywedodd Iesu'r ddameg yn ateb i gwestiwn gan un o'r bobl oedd yn arbenigo yn y cyfreithiau a roddodd Duw i Moses. Roedd y cyfreithiwr yn meddwl ei fod yn gwybod popeth ac roedd yn gobeithio y byddai'n gallu baglu Iesu. Methodd! Weithiau, rydyn ni'n meddwl ein bod yn gwybod popeth hefyd ... ond dydyn ni ddim!

CHWILAIR

Ond gobeithio y byddwch yn gwybod yr holl eiriau sydd ar goll yn y brawddegau isod. Rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair a'u hysgrifennu yn y bylchau hefyd

Adnod 27: "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl _____ ac â'th holl _____ ac â'th holl _____ ac â'th holl _____ a chân dy _____ fel ti dy hun." Yn y ddameg, roedd y dyn yn mynd i lawr o _____ i _____ pan syrthiodd i blith _____. Fe wnaethon nhw ei guro a'i adael yn _____ _____. Aeth yr _____ a'r _____ heibio cyn i'r _____ ei helpu.

D	A	I	R	I	E	FF	O	J	A	B
E	G	E	O	R	R	U	LL	E	L	M
H	A	N	N	E	R	M	A	R	W	D
I	L	I	E	A	Y	P	D	W	DD	A
W	O	D	R	V	I	R	R	S	E	I
A	N	D	TH	C	N	D	O	A	F	F
G	O	D	Y	M	Y	G	N	L	Y	E
P	L	B	O	H	C	I	R	E	J	L
S	R	H	D	A	I	R	A	M	A	S

10

Roedd yr offeiriad a'r Lefiad yn gweithio yn Nheml yr Iddewon yn Jerwsalem. Serch hynny, ni wnaethant ddim i helpu'r dyn oedd wedi cael niwed.

C **Awgrymwch un rheswm da pan na wnaethant ei helpu.**

1

C **Sut oedd y Samariad yn teimlo pan welodd y dyn oedd wedi cael niwed?**

1

Mae llawer o bobl o'n cwmpas sy'n sâl neu heb ddigon o fwyd neu'n drist. Ydyn ni'n teimlo drostynt? Ydyn ni'n gwneud rhywbeth i'w helpu? Fe wnaeth y 'Samariad Trugarog' rywbeth i helpu'r dyn er nad oedd yn ei nabod nac yn dod o'r un wlad ag ef.
Helpodd y 'Samariad Trugarog' y dyn trwy fynd ato. Yna, arllwysodd ddau beth ar ei glwyfau.

C **Beth oedden nhw?**

2

Yna, rhoddodd y dyn ar ei asyn ei hun a mynd ag ef i fan lle byddai'n cael gofal.

C **I ble aeth y Samariad ag ef?**

1

C **Talodd iddo gael aros yno hefyd. Faint o arian a dalodd?**

1

Ar ben hynny, addawodd dalu mwy pan ddeuai yn ôl os oedd angen.

C **Ar ôl adrodd y stori, beth ddywedodd Iesu wrth y cyfreithiwr y dylai ei wneud?**

2

Nid dim ond pobl drws nesa' yw ein cymdogion, ond pawb rydyn ni'n cwrdd â nhw, yn yr ysgol, yn y stryd, ar y bws ac ati. Dylen ni fod yn barod i helpu unrhyw un y mae angen help arnynt unrhyw bryd, unrhyw le. Ond mae ystyr ddyfnach i'r ddameg hefyd. Mae'r dyn sy'n gorwedd ar ochr y ffordd wedi'i anafu yn 'ddarlun' o bob un ohonom ni. Roedd arno angen rhywun i'w achub. Mae arnom ni angen rhywun i'n hachub ni hefyd oddi wrth ein pechodau. Y newyddion da yw bod Iesu wedi dod o'r Nefoedd i'n hachub ni. Mae wedi talu'r pris am hyn trwy farw drosom ni ar Galfaria.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 12: 13-21

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 12: 15

Astudiaeth 3 Damhegion – Y Ffŵl Cyfoethog

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Diarhebion 11: 4 & 28 Amos 4 : 12 & 13 Mathew 6: 19-21

Unwaith eto, dywedodd rhywun rywbeth wrth Iesu ac mae Iesu'n ei ateb trwy adrodd dameg. Yn yr achos hwn, roedd tad y dyn a siaradodd â Iesu wedi marw a doedd y dyn ddim yn meddwl ei fod wedi cael digon o'i eiddo.

C **Beth oedd y dyn eisiau i Iesu ei wneud?**

_____

_____

2

C **Rhowch brif rannau'r ddameg yn y drefn gywir isod trwy roi'r rhifau o 1 i 5 yn y blychau.**

☐ Meddai "Tynnaf fy ysguboriau i lawr ac adeiladu rhai mwy a chasglaf yno fy holl ŷd a'm heiddo."

☐ Ond meddai Duw wrtho "Yr ynfytyn." (Y ffŵl)

☐ Dywedodd wrtho'i hun "Beth a wnaf fi, oherwydd nid oes gennyf unman i gasglu fy nghnydau iddo?"

☐ Dywedodd wrtho'i hun, "Gorffwys, bwyta, yf, bydd lawen."

☐ Yr oedd tir rhyw ŵr cyfoethog wedi dwyn cnwd da.

5

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i wneud dau air sy'n disgrifio'r dyn yn y ddameg.**

n y f t n y y

_ _ _ _ _ _ _



o f y g th e c o

_ _ _ _ _ _ _ _

1

Roedd y dyn a siaradodd â Iesu yn debyg i'r ffarmwr cyfoethog yn y ddameg. Roedd y ddau ohonyn nhw eisiau bod yn fwy cyfoethog a doedden nhw ddim yn meddwl am neb ond amdanyn nhw'u hunain.

C **Sawl gwaith ddywedodd y dyn yn y ddameg "fi" neu "fy"? Ysgrifennwch eich ateb yn y blwch.**



_____

_____

1

Mewn gwirionedd, roedd y dyn cyfoethog yn dlawd iawn. Nid oedd wedi rhoi lle yn ei fywyd i Dduw. Ond roedd gan Dduw ddiddordeb ynddo ef. Ydych chi'n meddwl weithiau faint o ddiddordeb sydd gan Dduw yn eich bywyd CHI?

C **Tynnwch linell syth o bob un o deitlau Duw i'r esboniad cywir.**

Duw'r Cread	Sy'n rheoli Bywyd a Marwolaeth.
Duw Cariad	Bydd raid i ni gwrdd ag Ef un diwrnod i esbonio sut rydyn ni wedi byw ein bywydau.
Duw Amser	Sydd eisiau i ni ddangos ei gariad at bobl dlawd.
Duw Barn	A wnaeth y ddaear, yr haul a'r glaw.



C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa gynlluniau oedd gan y dyn cyfoethog ar gyfer ei ddyfodol.**

4

2

C **Beth ddywedodd Duw am ddyfodol y dyn?**

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r rhybudd a roddodd yr Arglwydd Iesu.**

3

Roedd y dyn yn meddwl am y bywyd hwn ac amdano'i hunan yn unig. Roedd hyn yn ei wneud yn ffŵl yng ngolwg Duw. Mae angen i ni baratoi'n hunain at yr hyn sy'n digwydd ar ôl i ni farw. Pan fyddwn ni'n gofyn am faddeuant, mae'r Arglwydd Iesu yn maddau'r pethau drwg rydyn ni wedi'u gwneud ac yn rhoi bywyd tragwyddol i ni sy'n golygu bod gennym ni le yn y Nefoedd, gydag ef, am byth. Os yw rhywun yn gwneud hyn, nid yw'n ffŵl ond mae'n ddoeth iawn yn ôl safonau Duw.

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 14: 15-24

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 14: 15-24
Ioan 6: 37

Astudiaeth 4 Damhegion – Y Wledd Fawr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Mathew 28: 16-20 Effesiaid 2: 1-13

Dyma ddameg arall a gafwyd gan Iesu ar ôl i rywun ddweud rhywbeth wrth y bwrdd bwyd.

C **Ysgrifennwch beth a ddywedodd y dyn.**



1

C **Ticiwch yr ateb cywir**

Dechreuodd Iesu ei ddameg trwy sôn am ddyn a oedd wedi:

adeiladu tŷ newydd. .....
prynu gwartheg. .....
paratoi gwledd fawr. .....
priodi. .....

1

Hyd yma, mae'r ddameg yn ein hatgoffa am Dduw ei Hunan. Fel yr oedd y dyn wedi trefnu gwledd fawr, mae Duw wedi trefnu ar ein cyfer ni.

C **Chwiliwch am adnod Titus 2:11 a'i hysgrifennu yma.**

1

Pan oedd popeth yn barod, anfonodd y dyn ei was i ddweud wrth y bobl oedd wedi cael gwahoddiad am ddod i'r wledd.

C **Beth oedd y gwas i fod i'w ddweud?**



1

Heddiw, mae gan Dduw lawer o 'weision' sy'n dweud wrth bobl ei fod yn cynnig bywyd tragwyddol yn yr Arglwydd Iesu. Os ydych chi'n credu ynddo, ceisiwch ddweud wrth eich ffrindiau amdano a beth y gall Ef ei wneud drostyn nhw!

C **Dewch o hyd i'r gair sydd ar goll yn y frawddeg hon o Actau 1:8**

Mae Iesu eisiau i Gristnogion fod yn _ _ _ _ _ _ _ Iddo.

1

Pan ddywedodd y gwas wrth ei feistr beth oedd wedi digwydd, roedd y meistr yn ddig iawn.

C **Pam oedd y meistr mor ddig?**

2

GRID GEIRIAU

Darllenwch yn ofalus beth a ddywedodd y rhai oedd wedi cael gwahoddiad a llanwch y Grid Geiriau.



Cliwiau:

1. Beth oedd y dyn wedi'i drefnu?
2. Pwy wnaeth ef ei anfon i ddweud bod y wledd yn barod?
3. Beth wnaeth y bobl a oedd wedi cael eu gwahodd i'r wledd?
4. Dywedodd y cyntaf ei fod wedi _ _ _ _ _ cae.
5. A gofynnodd am gael ei _ _ _ _ _ _ _ _.
6. Beth oedd y trydydd un a wahoddwyd wedi'i wneud?
7. Felly, nid oedd yn gallu _ _ _.
8. Beth wnaeth y meistr pan glywodd nad oedd neb a wahoddwyd yn dod i'r wledd?
9. Dywedodd na fyddai _ _ _ o'r rhai a wahoddwyd yn cael profi ei wledd.

9

C **Chwiliwch am air wedi'i guddio ar draws y grid ac ysgrifennwch ef yn y blwch isod.**

1

C **Yn y diwedd, roedd y tŷ yn llawn. Enwch bedwar math o bobl a ddaeth i'r wledd:-**

1. _____ 2. _____
3. _____ 4. _____

1

Fe wnaethon nhw dderbyn y gwahoddiad a mwynhau'r swper. Ni chafodd neb ohonynt eu troi i ffwrdd. Bydd Iesu'n eich derbyn chi os dewch chi ato.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

1

Yn y ddameg, mae'r Arglwydd Iesu'n ein rhybuddio am beryglon rhoi pethau eraill o flaen Ei wahoddiad Ef. Byddai'n drist pe baem ni'n cael ein gadael y tu allan i'r Nefoedd ar ôl cael pob cyfle i fod y tu mewn.

C **Chwiliwch am Luc 13: 28 a'i hysgrifennu yma.**

1

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4 a 15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120